**Ymateb ffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Datblygu Lleol 2 Cyngor Sir Penfro fel y'i diweddarwyd mewn ymateb i gwestiynau cychwynnol yr arolygwyr**

24 Ebrill 2026

Derbyniwch y canlynol fel sylwadau ffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru.

**<u>Ardaloedd cadwraeth arbennig sy'n sensitif i faethynnau</u>**

Rydym yn cefnogi dull eich awdurdod o ymdrin â'r cynllun datblygu lleol newydd ac ystyried effeithiau maethynnau ar ardaloedd cadwraeth arbennig yn yr asesiad rheoliadau cynefinoedd. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi ystyried ein cyngor, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau cynefinoedd. Rydym yn fodlon bod eich awdurdod wedi mabwysiadu dull rhagofalus addas ac wedi cynnig llwybrau rhesymol a thystiolaethol i osgoi effeithiau andwyol ar ardaloedd cadwraeth arbennig sy'n sensitif i faethynnau. Yn benodol, rydym yn cydnabod y gwaith manwl sydd wedi'i wneud i fesur effeithiau ac opsiynau lliniaru ar lefel is-ddalgylch. Nodwn fod sicrwydd manwl yn cael ei ohirio'n briodol i asesiadau rheoliadau cynefinoedd ar lefel prosiect, a bod hyn yn cael ei sicrhau trwy ddull cafeat polisi, yr ydym yn ei gefnogi. Felly, rydym yn cytuno bod y darpariaethau o ran effeithiau maethynnau ar gyfer y cynllun datblygu lleol newydd yn ddigonol i osgoi effaith andwyol ar integredd safleoedd, yn amodol ar asesiadau rheoliadau cynefinoedd prosiectau yn y dyfodol.

Er yr uchod, hoffem roi rhywfaint o eglurder ar ddehongliad ein cyngor mewn perthynas â gweithfeydd trin dŵr gwastraff gyda thrwyddedau diwygiedig mewn dalgylchoedd sy'n methu. Yn y tymor hwy, nod rhaglen AMP8 (cyfnod rheoli asedau 8) yw cyfyngu ar ollyngiadau ffosfforws o weithfeydd trin dŵr gwastraff mewn cyfuniad ar raddfa dalgylch, fel mesur Erthygl 6(2) i helpu i gyrraedd targedau ffosfforws cyrff dŵr. Mae'r rhaglen waith hon wedi'i hamserlennu i'w chwblhau erbyn 2032. Yn y cyfamser, efallai y bydd amgylchiadau lle mae capasiti i dderbyn dŵr gwastraff ychwanegol o fewn terfynau trwyddedau diwygiedig, ond, gall cysylltiadau cynyddol â gwaith unigol arwain at gynnydd net mewn gollyngiadau ffosfforws, oherwydd lefel bresennol perfformiad y gwaith, h.y. lle mae'r gweithfeydd hynny eisoes yn gweithredu islaw terfynau trwyddedau diwygiedig. Mae hyn yn golygu y gallai mwy o ffosfforws gael ei ollwng i mewn i ardal cadwraeth arbennig sy'n methu a gallai hyn arwain at ddirywiad yn y tymor byr, wrth aros am gwblhau holl welliannau AMP8 o fewn y dalgylch. Am y rheswm hwn, rydym yn cynghori y dylid ystyried cynigion datblygu sydd â chysylltiadau â gwaith o'r fath o fewn asesiad priodol ar lefel prosiect. Er mwyn bod yn gyflawn, rydym yn

awgrymu y dylid adlewyrchu hyn yng ngeiriad Polisi Cynllunio Gofodol 12A a gellid ei addasu gyda'r geiriad canlynol:

Ffosfforws:Yn yr ardal dalgylch hydrolegol a ddynodwyd ar gyfer ardaloedd cadwraeth arbennig afonol, bydd gofyn i ddatblygiadau sy'n creu gollyngiadau dŵr gwastraff ddangos bod capasiti o fewn terfynau'r drwydded amgylcheddol a osodwyd yn y gwaith trin dŵr gwastraff y mae'n draenio iddo, gan ystyried egwyddorion cyfran deg o fewn y dalgylch y mae'r gwaith yn gollwng iddo. Yn ogystal, ni ddylai datblygiad arwain at unrhyw ddirywiad ardal cadwraeth arbennig i fethu â chyrraedd targedau ffosfforws nac oedi cyflawni ei hamcanion cadwraeth. Bydd angen i gamau datblygiadau tai gyd-fynd â chyflawni'r gwelliannau disgwyliedig i weithfeydd trin carthion fel y nodir ym Mholisi GN 13 Datblygiad Preswyl, Polisi GN 16 Dyraniadau Preswyl, Polisi GN 17 Ymrwymiadau Preswyl ac Atodiad Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn ogystal, rydym yn cynghori, er mwyn cysondeb ac eglurder, bod sillafiad ffosfforws yn cael ei gywiro drwy gydol y cynllun datblygu lleol newydd (h.y. dylai pob cyfeiriad fod at ffosfforws, nid ffosfforus na ffosffadau).

Rydym hefyd wedi nodi gwall yn Atodiad D (NEWYDD) - Golygiadau Arfaethedig i Gynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro – Golygiadau Archwiliad. Mae'r nodyn esboniadol olaf ar dudalen 15 yn dal i gyfeirio at GN47; mae angen diwygio hyn i Bolisi Cynllunio Gofodol 12A.

Yn olaf, nodwn fod Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) wedi gofyn am eglurder ar faterion ansawdd aer ((ED08) Cwestiynau Cychwynnol Llythyr Ymateb Cyngor Sir Benfro – mae tudalen 10 yn darparu crynodeb o'r cysylltiad â Cyfoeth Naturiol Cymru hyd yma o dan 'Y cyngor hyd yma y mae'r Cyngor wedi'i gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru'). Rhag ofn ei fod o gymorth ar hyn o bryd, nodwn eich bod yn ystyried na fydd lefel y datblygiad yn yr ardal yn achosi cyfraniad sylweddol uwch at ddyddodiad nitrogen o drafnidiaeth ffordd a lle mae gan gynnig y potensial i arwain at gynnydd mewn traffig ffyrdd, bydd hyn yn cael ei asesu trwy asesiad rheoliadau cynefinoedd lefel prosiect annibynnol. Rydym yn fodlon â'r dull hwn.

Gobeithiwn fod y sylwadau hyn yn glir ac yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni.

Cofion gorau

Louise Edwards

**Uwch Yngynghorydd Cynllunio Datblygu**

**Tim Cynllunio Datblygu De Orllewin Cymru**